

Sgan uwchsain yn yr abdomen

Beth yw hwn?

Gall uwchsain fasgwlaidd o'ch abdomen hefyd gael ei alw'n sgan dwplecs neu'n Doppler. Yr aorta yw'r brif rydweli sy'n cludo gwaed o'r galon i weddill y corff. Mae ganddi lawer o ganghennau. Mae'r prawf hwn yn defnyddio uwchsain i gynhyrchu delwedd o'ch aorta a'r canghennau. Mae'n ffordd ddiogel ac effeithiol o fesur maint yr aorta ac asesu llif y gwaed. Dylai'r prawf fod yn ddi-boen ond efallai y byddwch chi'n teimlo rhywfaint o bwysau wrth i'r gwyddonydd bwysu ar eich abdomen yn ystod y prawf.

Pam ydw i'n cael y prawf hwn?

Mae eich meddyg wedi gofyn am y prawf hwn oherwydd ei fod yn amau bod gennych ymlediad yn eich aorta. Mae ymlediad yn digwydd pan fydd waliau'r bibell waed yn gwanhau ac yn achosi chwyddo. Gall ymlediaidau ddigwydd mewn unrhyw rydweli ond fe'u gwelir amlaf yn yr abdomen. Gelwir hyn yn ymlediad aortaidd yn yr abdomen neu AAA.

Sut mae uwchsain yn yr abdomen yn cael ei gyflawni?

Nid oes angen paratoi ar gyfer y sgan. Bydd gwyddonydd clinigol neu wyddonydd dan hyfforddiant (a all fod yn wryw neu'n fenyw) yn cyflawni ac yn dehongli eich sgan uwchsain. Mae angen mynediad i'ch abdomen arnom felly gofynnir i chi godi'ch crys-t. Bydd hancesi papur yn cael eu defnyddio i amddiffyn eich dillad yn ystod y sgan. Efallai y bydd yn rhaid i'r person sy'n gwneud y sgan bwysu ar eich bol i gael



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

delwedd well o'r bibell waed. Ni ddylai hyn fod yn boenus ond os ydyw, rhowch wybod i ni. Bydd y sgan yn cymryd tua 15-30 munud.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y gwyddonydd clinigol neu'r gwyddonydd dan hyfforddiant yn esbonio'r canfyddiadau ac yn ysgrifennu adroddiad a fydd ar gael i'r meddyg neu'r nyrs a ofynnodd am y sgan. Os oes gennych AAA, yna byddwch yn cael eich cynnwys ar raglen monitro a byddwn naill ai'n eich gweld yn flynyddol neu bob tri mis yn dibynnu ar faint yr AAA.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board